SCDCPC520
Arwain rheoli risg wrth gomisiynu, caffael a chontractio

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag arwain proses rheoli risg effeithiol yn eich maes cyfrifoldeb. Mae hyn yn cynnwys gosod y sylfeini ar gyfer rheoli risg trwy bolisi, datblygu diwylliant o gymryd risgiau cadarnhaol, a gwerthuso, blaenoriaethu a rheoli risg yn eich maes cyfrifoldeb.

Mae'r SGC hon yn berthnasol i unigolion sydd yn ymwneud â chomisiynu, caffael a chontractio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Meini prawf perfformiad

Sicrhau bod polisi yn sail i reoli risg yn eich maes cyfrifoldeb

Mae'n rhaid i chi allu:

P1 sicrhau bod polisi rheoli risg ysgrifenedig wedi'i sefydlu sydd â llinellau atebolrwydd clir a digon o hyblygrwydd i gynnwys yr holl risgiau ar gyfer eich maes cyfrifoldeb

P2 sicrhau bod y polisi rheoli risg yn cael ei gyfleu i'r bobl berthnasol o fewn eich **sefydliad** a'r tu allan iddo, gan gynnwys **unigolion, pobl allweddol** a **rhanddeiliaid** sy'n gysylltiedig â chomisiynu **cydgynhyrchiol**

P3 negodi gyda **phobl berthnasol** i sefydlu'r meini prawf risg presennol ar gyfer eich maes cyfrifoldeb

Datblygu diwylliant o gymryd risgiau cadarnhaol

Mae'n rhaid i chi allu:

P4 datblygu diwylliant o gymryd risgiau cadarnhaol yn eich maes cyfrifoldeb, lle y mae pobl yn asesu, gwerthuso a dysgu o'r peryglon posibl a'r canlyniadau cadarnhaol a all ddeillio o gymryd risgiau

P5 sicrhau bod uwch reolwyr yn ymrwymo i'r broses rheoli risg

P6 annog darparwyr gwasanaeth a phartneriaid eraill i rannu gwybodaeth am y risgiau y maent yn eu hwynebu

Gwerthuso risgiau ar gyfer eich maes cyfrifoldeb

Mae'n rhaid i chi allu:

P7 dadansoddi'r **math o risgiau** ar gyfer eich maes cyfrifoldeb, o fewn eich sefydliad a'r tu allan iddo

P8 gwerthuso effaith risgiau posibl sydd ynghlwm wrth weithgareddau presennol a gweithgareddau arfaethedig ar gyfer eich maes cyfrifoldeb

P9 gwerthuso'n feirniadol tebygolrwydd risgiau posibl

P10 cynhyrchu proffil risg ar gyfer eich maes cyfrifoldeb

P11 cyfleu gwybodaeth am y risgiau a nodwyd i bobl berthnasol er mwyn ategu'r broses gwneud penderfyniadau

Rheoli risg

Mae'n rhaid i chi allu:

P12 nodi pwy sy'n gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu, gan gynnwys hunangaffael a chymorth

hunangyfeiriedig

P13 sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am reoli risg yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau

P14 blaenoriaethu risgiau a nodwyd, gan ystyried eich dadansoddiad a'ch gwerthusiad a meini prawf risg y sefydliad

P15 sicrhau bod digon o adnoddau wedi'u dyrannu yn eich maes cyfrifoldeb i gynorthwyo â rheoli risg yn effeithiol

P16 gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd rheoli risg ar gyfer eich maes cyfrifoldeb, gan gynnwys cynllunio wrth gefn

P17 adolygu effeithiolrwydd y broses rheoli risg yn eich sefydliad, gan nodi gwersi a ddysgwyd a gwneud newidiadau lle bo'r angen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Yn benodol i'r SGC hon

Mae angen i chi wybod a deall:

K1 sut i ddatblygu polisi rheoli risg ysgrifenedig

K2 pwysigrwydd dangos ymrwymiad uwch reolwyr i reoli risg

K3 y math o benderfyniadau y gellid eu gwneud mewn perthynas â risgiau a nodwyd

K4 sut i werthuso gwybodaeth am arfer yn ymwneud â rheoli risg, gan gynnwys cynllunio wrth gefn

K5 ffyrdd o ddatblygu diwylliant sefydliadol

K6 y math o adnoddau y mae eu hangen i roi'r polisi rheoli risg ar waith yn effeithiol

K7 sut i sefydlu systemau effeithiol ar gyfer adolygu'r broses rheoli risg

Hawliau

Mae angen i chi wybod a deall:

K8 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau

K9 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cwynion a chwythu'r chwiban

K10 eich rôl chi a rolau pobl eraill o ran hybu **comisiynu cydgynhyrchiol** a **chymunedol**

K11 rôl darparwyr gwasanaeth ac asiantaethau partner o ran hybu hawliau, dewisiadau, lles a chyfranogiad gweithgar **unigolion**, **pobl allweddol** a chymunedau

K12 sut i herio, gwerthuso'n feirniadol a chymryd camau gwybodus yn erbyn gwahaniaethu

K13 eich dyletswydd i roi gwybod am unrhyw beth y sylwch y mae pobl yn ei wneud, neu unrhyw beth y maent yn methu â'i wneud, yn ogystal ag anawsterau gweithredol, adnoddau neu arferion gwael neu wahaniaethol a allai rwystro hawliau unigolion, pobl allweddol a chymunedau

Diogelu

Mae angen i chi

K14 deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, fframweithiau, systemau lleol a

wybod a deall:		gweithdrefnau amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion
	K15	y cyfrifoldeb sydd gan bawb i godi pryderon ynghylch achosion posibl o niwed neu gamdriniaeth, arferion gwael neu arferion gwahaniaethol
	K16	sut a phryd i godi pryderon yn uwch ynghylch niwed neu gamdriniaeth, gan gynnwys chwythu'r chwiban
	K17	sut i gefnogi pobl eraill sydd wedi mynegi pryder ynghylch niwed neu gamdriniaeth
	K18	beth i'w wneud os ydych wedi rhoi gwybod am bryderon ond nid oes camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hwy

Cynaladwyedd

Mae angen i chi wybod a deall:	K19	sut i ddadansoddi'n feirniadol y cyfrifoldebau **gwleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol** sy'n berthnasol i'ch maes cyfrifoldeb
	K20	sut i hybu cyfrifoldebau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol eich **sefydliad**
	K21	sut i werthuso'n feirniadol cynaladwyedd gwasanaethau a gomisiynwyd
	K22	sut i werthuso'n feirniadol datblygiad syniadau newydd cynaladwy yn eich maes cyfrifoldeb

Gweithio mewn partneriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:	K23	sut y gall **gweithio cydweithredol ac integredig** gynyddu adnoddau i'r eithaf
	K24	sut i arwain comisiynu cydgynhyrchiol a chymunedol
	K25	sut i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a chaffael yn ystod gweithgareddau comisiynu, caffael a chontractio
	K26	sut i ddadansoddi'n feirniadol **blaenoriaethau, buddiannau** a chyfraniadau **rhanddeiliaid** a'u heffaith ar weithio mewn partneriaeth
	K27	sut i ddadansoddi'n feirniadol yr ysgogwyr a'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar fusnesau a sefydliadau'r trydydd sector
	K28	**prosesau busnes** a **realiti gweithredol** darparwyr gwasanaeth
	K29	sut i ddylanwadu ar waith y bartneriaeth er mwyn cyflawni

		canlyniadau y cytunwyd arnynt
	K30	sut i ddatblygu trefniadau llywodraethu ar gyfer partneriaethau sy'n ystyried nodau ac amcanion strategol gwahanol bartneriaid
	K31	sut i ddadansoddi'r cyfyngiadau statudol ac ariannol ar gyfer **cytuno ar gyllidebau** i gefnogi gweithio mewn partneriaeth
	K32	sut i hybu partneriaethau ychwanegol ymhlith darparwyr a rhanddeiliaid eraill trwy gomisiynu strategol
	K33	sut i werthuso'n feirniadol effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth
		Rheoli risg
Mae angen i chi wybod a deall:	K34	sut i ddadansoddi'n feirniadol y risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu, caffael a chontractio ar gyfer eich maes cyfrifoldeb chi
	K35	sut i asesu hyfywedd ariannol cynlluniau a chynigion comisiynu
	K36	dulliau o reoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chomisiynu, caffael a chontractio ar gyfer eich maes cyfrifoldeb chi
	K37	sut i hybu arfer sy'n hwyluso cymryd risgiau cadarnhaol
		Eich ymarfer
Mae angen i chi wybod a deall:	K38	deddfwriaeth, codau statudol, safonau, rheoliadau, fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol, a rhai'r Deyrnas Unedig ac Ewrop, sy'n berthnasol i gomisiynu, caffael a chontractio yn eich maes cyfrifoldeb chi
	K39	deddfwriaeth, codau statudol, safonau, fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol, a rhai'r Deyrnas Unedig ac Ewrop, sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth ac asiantaethau partner
	K40	sut i gael gafael ar ddehongliadau cywir o ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol
	K41	sut i ddadansoddi gwersi a ddysgwyd o adroddiadau, gwaith ymchwil ac ymchwiliadau'r llywodraeth ynghylch methiannau difrifol o ran ymarfer iechyd neu ofal cymdeithasol, ac o ymyraethau llwyddiannus
	K42	sut i weithio gyda phobl allweddol sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau atebolrwydd am bolisi cyllidol a chyflawni canlyniadau
	K43	sut i wneud penderfyniadau a chytuno ar flaenoriaethau
	K44	sut i werthuso'n feirniadol effaith penderfyniadau comisiynu, caffael a

		chontractio ar unigolion, pobl allweddol a chymunedau
	K45	sut i werthuso'n feirniadol pwysigrwydd darpariaeth ataliol a chymunedol
	K46	sut i arwain y broses o drawsffurfio darparu gwasanaethau
	K47	sut i ddehongli gwybodaeth ariannol, gan gynnwys mapio ariannol, i lywio comisiynu, caffael a chontractio
	K48	sut i ddefnyddio a hybu **ymarfer seiliedig ar dystiolaeth** i gyfiawnhau eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau
	K49	egwyddorion ymarfer myfyriol a pham mae'n bwysig
	K50	sut i nodi a manteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol

Damcaniaeth ar gyfer ymarfer

Mae angen i chi wybod a deall:	K51	sut i werthuso'n feirniadol effaith **modelau cymdeithasol, meddygol a busnes** ar gyflawni canlyniadau
	K52	sut i werthuso'n feirniadol effaith strwythur a diwylliant sefydliadol ar ba mor hyblyg ac arloesol y gellir defnyddio adnoddau
	K53	sut i werthuso'n feirniadol damcaniaethau a dulliau arwain a rheoli sy'n berthnasol i'ch maes cyfrifoldeb chi

Cyfathrebu

Mae angen i chi wybod a deall:	K54	sut i hybu cyfathrebu fel sail ar gyfer comisiynu cydgynhyrchiol a chymunedol
	K55	sut i arwain cyfathrebu effeithiol o fewn sefydliadau a rhyngddynt

Delio â gwybodaeth

Mae angen i chi wybod a deall:	K56	gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth, gan ystyried sensitifrwydd masnachol ac arferion caffael
	K57	gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cofnodi gwybodaeth a pharatoi adroddiadau o fewn terfynau amser
	K58	dulliau o sicrhau bod data, gwybodaeth a dadansoddiadau yn hyblyg i unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

	K59	sut a ble y gellir ac y dylid defnyddio dulliau cyfathrebu electronig
	Iechyd a Diogelwch	
Mae angen i chi wybod a deall:	K60	gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd gweithio
	Rheoli Pobl	
Mae angen i chi wybod a deall:	K61	gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran arferion cyflogaeth
	K62	trefniadau llywodraethu mewnol ac allanol ar gyfer eich maes cyfrifoldeb chi
	K63	sut i greu diwylliant sy'n hybu didwylledd, creadigrwydd a datrys problemau
	K64	sut i greu diwylliant sy'n cynorthwyo pobl i groesawu newid
	K65	ffactorau sy'n gallu arwain at bwysau ar berfformiad y gwasanaeth, yr unigolyn a'r tîm
	K66	sut i reoli amser, llwyth gwaith a pherfformiad i fodloni targedau a chyflawni canlyniadau
	K67	sut i roi adborth adeiladol i bobl eraill
	K68	sut i ddatblygu gwybodaeth ac ymarfer proffesiynol pobl eraill trwy oruchwylio a gwerthuso myfyriol

Gwybodaeth ychwanegol

Cwmpas / ystod yn gysylltiedig â meini prawf perfformiad:

Mae'r manylion yn y maes hwn yn ddatganiadau esboniadol o'r cwmpas a/neu yn enghreifftiau o gyd-destunau posibl lle y gallai'r SGC fod yn gymwys; ni ddylid eu hystyried yn ddatganiadau ystod sy'n ofynnol i gyflawni'r SGC.

Pan fydd unigolyn yn ei chael hi'n anodd neu'n amhosibl mynegi ei ddewisiadau ei hun a gwneud penderfyniadau am ei fywyd, er mwyn cyflawni'r safon hon, efallai y bydd angen cynnwys eiriolwyr neu bobl eraill sy'n gallu cynrychioli barn a budd pennaf yr unigolyn.

Pan fydd gwahaniaethau ieithyddol yn y lleoliad gwaith, er mwyn cyflawni'r safon hon, efallai y bydd angen defnyddio gwasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd.

Sefydliad yw'r asiantaeth, cwmni neu awdurdod lleol yr ydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli iddo/iddi, yn berchen arno/arni neu'n ei reoli/rheoli; os ydych chi'n derbyn taliadau uniongyrchol neu'n ariannu eich gwasanaethau eich hun, mae'n golygu chi a'r bobl sy'n gweithio i chi.

Yr **unigolyn** yw'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gwasanaeth.

Pobl allweddol yw'r bobl hynny sy'n bwysig i unigolyn ac sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i les yr unigolyn hwnnw. Gall pobl allweddol gynnwys teulu, ffrindiau, cynhalwyr a phobl eraill y mae gan yr unigolyn berthynas gefnogol â nhw.

Mae **rhanddeiliaid** yn unigolion a phobl eraill sydd â buddiant yn eich gwaith neu y mae eich gwaith yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd. Maent yn cynnwys darparwyr gwasanaeth o'r sector statudol, y trydydd sector neu'r sector busnes; rheoleiddwyr; cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu gwaith yn cyfrannu at les yr unigolyn ac sy'n eich galluogi i gyflawni eich rôl; partneriaid comisiynu neu'r rhai hynny sy'n comisiynu gwasanaethau gan yr un darparwr, pa un a ydynt yn drefniadau ar y cyd ai peidio.

Mae'r broses **cydgynhyrchu** yn cynnwys datblygu perthnasoedd er mwyn cydweithredu ag unigolion, pobl leol, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Mae'n golygu defnyddio a datblygu sgiliau a galluoedd pobl trwy gydol yr holl weithgareddau comisiynu, caffael a chontractio, gan gynnwys cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n rhoi unigolion, pobl allweddol a chymunedau wrth wraidd gwneud penderfyniadau a rheoli, gan ystyried y rolau y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

Gall **pobl berthnasol** gynnwys unigolion, pobl allweddol, pobl sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid eraill, a byddant yn amrywio yn unol â'r materion a'r amgylchiadau. Gall pwy yw'r bobl berthnasol ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Mae'r **math o risgiau** y mae angen eu hystyried yn eang ac amrywiol. Maent yn cynnwys risgiau i bobl, er enghraifft y risgiau i iechyd a diogelwch unigolion a'r gweithlu sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynwyd; risgiau yn y gymuned a sut gallai'r rhain effeithio ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Mae'n bosibl hefyd y bydd risgiau sylweddol o safbwynt enw da a risgiau ariannol ynghlwm wrth gontractio â sefydliadau eraill.

Cwmpas/ystod yn gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth:

Mae'r manylion yn y maes hwn yn ddatganiadau esboniadol o'r cwmpas a/neu yn enghreifftiau o gyd-destunau posibl lle y gallai'r SGC fod yn gymwys; ni ddylid eu hystyried yn ddatganiadau ystod sy'n ofynnol i gyflawni'r SGC.

Mae'n rhaid cymhwyso pob datganiad am wybodaeth yng nghyd-destun y safon hon.

Mae'r broses **cydgynhyrchu** yn cynnwys datblygu perthnasoedd ag unigolion, pobl allweddol a chymunedau, gan gydnabod arbenigedd pobl a'r cymorth y maent yn ei gynnig i'w gilydd. Mae'n rhoi unigolion, pobl allweddol a chymunedau wrth wraidd gwneud penderfyniadau a rheoli.

Mae **comisiynu cymunedol** yn cynnwys cydweithredu â phobl leol, grwpiau cymunedol a sefydliadau i gynllunio a darparu gwasanaethau, gan ystyried y rolau y mae pobl yn dymuno eu cyflawni. Mae'n cynnwys defnyddio a datblygu sgiliau a galluoedd pobl drwy gydol yr holl weithgareddau comisiynu, caffael a chontractio.

Yr **unigolyn** yw'r oedolyn, plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gwasanaeth.

Pobl allweddol yw'r bobl hynny sy'n bwysig i unigolyn ac sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i les yr unigolyn hwnnw. Gall pobl allweddol gynnwys teulu, ffrindiau, cynhalwyr ac eraill y mae gan yr unigolyn berthynas gefnogol â nhw.

Defnyddir y model **gwleidyddol, economaidd, cymdeithasegol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol** (a adwaenir hefyd fel y model PESTLE) i ddadansoddi'r dylanwadau sydd gan sefydliad ar ei amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol. Fe'i defnyddir i lywio penderfyniadau a galluogi'r sefydliad i ymateb i newid.

Defnyddir y term **sefydliad** i olygu'r sefydliad rydych chi'n gweithio neu'n gwirfoddoli iddo, neu rydych chi'n berchen arno neu'n ei reoli. O ran pobl sy'n ariannu eu gwasanaethau eu hunain neu'n defnyddio cymorth arall hunangyfeiriedig, mae'n golygu chi a'r bobl a allai fod yn gweithio i chi.

Mae **gweithio cydweithredol ac integredig** yn disgrifio ystod o ffyrdd y gall dau sefydliad neu fwy weithio gyda'i gilydd, er enghraifft gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd neu gydweithrediadau rhanbarthol. Gallant fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol, dros dro neu'n barhaol, a gallant gynnwys cytuno ar gyllidebau.

Mae **blaenoriaethau a buddiannau** rhanddeiliaid yn ymwneud â'r canlyniadau a geisir. Mae'r rhain dan ddylanwad gwahanol athroniaethau, egwyddorion, blaenoriaethau a chodau ymarfer, ac effeithir arnynt gan eu gwahaniaethau o ran maint, strwythur, trefn lywodraethol a chapasiti. Gallant newid dros amser mewn ymateb i ffactorau cenedlaethol a lleol.

Mae **rhanddeiliaid** yn unigolion a phobl eraill sydd â buddiant yn eich gwaith neu y mae eich gwaith yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd. Maent yn cynnwys darparwyr gwasanaeth o'r sector statudol, y trydydd sector neu'r sector busnes; rheoleiddwyr; cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu gwaith yn cyfrannu at les yr unigolyn ac sy'n eich galluogi i gyflawni eich rôl; partneriaid comisiynu neu'r rhai hynny sy'n comisiynu gwasanaethau gan yr un darparwr, pa un a ydynt yn drefniadau ar y cyd ai peidio.

Mae **prosesau busnes** yn disgrifio'r systemau a'r tasgau y mae sefydliadau yn ymgymryd â hwy i allu darparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol.

Realiti gweithredol darparwyr gwasanaeth yw'r ffactorau sy'n effeithio ar sut y gallant gynnal eu gwasanaethau, yn enwedig pan fo cystadleuaeth am gyllid a chwsmeriaid.

Canlyniadau yw'r hyn y dymunir i'r gweithgaredd ei gyflawni ar gyfer unigolion, pobl allweddol a chymunedau. Maent yn symud y pwyslais o'r prosesau, trafodion a rheoli perfformiad i'r gwahaniaethau y gall y ddarpariaeth eu gwneud mewn gwirionedd i fywydau pobl. Maent yn sail i gomisiynu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd trwy roi swyddogaeth ganolog i unigolion wrth werthuso effeithiolrwydd comisiynu.

Mae **cytuno ar gyllidebau** yn cynnwys cyfuno neu gronni cyllidebau o fewn neu rhwng sefydliadau, er enghraifft defnyddio cyllid awdurdod lleol a gofal iechyd parhaus, ar gyfer comisiynu ar y cyd neu brynu rhanbarthol/cydweithredol.

Mae **ymarfer seiliedig ar dystiolaeth** yn defnyddio systemau, prosesau a 'doethineb ymarfer' a fu'n effeithiol o ran helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gallai tystiolaeth fod wedi dod o amrywiaeth o ffynonellau: ymchwil ffurfiol ac anffurfiol, a barn a safbwyntiau unigolion, pobl allweddol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal.

Mae'r **model cymdeithasol** yn disgrifio anabledd fel cyfres o rwystrau mewn cymdeithas ac nid mewn unigolyn, er enghraifft agweddau tuag at bobl sydd mewn angen neu rwystrau ffisegol. Mae'r **model meddygol** yn disgrifio salwch neu anabledd fel rhan gynhenid o'r unigolyn, ac felly byddai'n ceisio trin neu wella'r unigolyn. Mae **modelau busnes** yn cyfeirio at angen sefydliad i weithredu fel busnes o fewn cyfyngiadau ariannol ac, mewn rhai achosion, i wneud elw, er enghraifft mentrau cymdeithasol a busnesau preifat.

Gwerthoedd:

Glynu wrth godau ymarfer neu ymddygiad lle y bônt yn berthnasol i'ch rôl a'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'ch lleoliad gwaith, gan gynnwys hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau:

I gael eu trin fel unigolyn

I gael eu trin yn gyfartal a pheidio ag wynebu gwahaniaethu

I gael eu parchu

I gael preifatrwydd

I gael eu trin mewn ffordd urddasol

I gael eu diogelu rhag perygl a niwed

I gael cymorth a gofal mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion, sy'n ystyried eu dewisiadau ac sy'n eu hamddiffyn hefyd

I gyfathrebu gan ddefnyddio eu dulliau cyfathrebu ac iaith ddewisol

I allu cael gafael ar wybodaeth amdanynt hwy eu hunain

Dylai pob agwedd ar gomisiynu, caffael a chontractio geisio adeiladu ar y gwerthoedd sylfaenol hyn a dylent:

Barchu gwerth ac urddas cynhenid pob unigolyn

Parchu hawliau dynol plant, pobl ifanc ac oedolion

Parchu hawl pobl i gymryd risgiau cadarnhaol

Bod yn dryloyw

Bod yn atebol

Bod yn gymesur

Bod yn gyson

Bod wedi'u targedu

Bod yn ddiduedd

Galluogi darparwyr

Datblygwyd gan	Sgiliau Gofal a Datblygu
Rhif fersiwn	1
Dyddiad y'i cymeradwywyd	Chwefror 2014
Dyddiad adolygu dangosol	Chwefror 2019
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad gwreiddiol	Sgiliau Gofal a Datblygu
URN gwreiddiol	Newydd
Galwedigaethau perthnasol	Cyfarwyddwr; Uwch Reolwr; Rheolwyr ac arweinwyr sy'n gyfrifol am weithio rhyngasiantaethol; Gwasanaethau Gofal Plant a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig; Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cyfres	Comisiynu, Caffael a Chontractio ar gyfer Gwasanaethau Gofal
Geiriau allweddol	Rheoli risg; polisi; cymryd risgiau; gwerthuso